

Adroddiad Arolygu Anabledd Dysgu (Dirybudd)

Uned Asesu a Thrin, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Abertawe

Dyddiad yr arolygiad: 17, 18 a 19 Ebrill 2023

Dyddiad cyhoeddi: 20 Gorffennaf 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-337-0

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	8
	• Ansawdd Profiad y Claf	8
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	12
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	17
4.	Y camau nesaf	19
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	21
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	22

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Uned Asesu a Thrin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar 17-19 Ebrill 2023.

Mae'r Uned yn cynnig gofal i chwe chlaf, sy'n cael eu derbyn i gael asesiad, triniaeth ac erbyn hyn, gofal adsefydlu. Bydd yr Uned yn cael ei hailenwi'n Gwasanaeth Asesu ac Adsefydlu fuan, i ddarparu gofal adsefydlu ac arhosiad tymor hwy i gleifion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, dau Adolygydd Cymheiriaid Clinigol ac un Adolygydd ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol. Gwelsom y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd rhagweithiol a brwdfrydig, a dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ffocws gwirioneddol ar y cleifion. Roedd y cleifion hefyd yn hapus i siarad â'r tîm arolygu, ac ar y cyfan, roedd y safbwyntiau a fynegwyd ganddynt yn gefnogol i'r gofal y maent yn ei gael.

Gwnaethom nodi maes i'w wella mewn perthynas â'r amgylchedd ffisegol a'r adnoddau sydd ar gael i gleifion sy'n cael gofal adsefydlu o dan y model gwasanaeth newydd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar yr amgylchedd ffisegol a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cleifion sy'n cael gofal adsefydlu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd anghenion iechyd corfforol y cleifion yn cael eu hasesu, eu hadolygu a'u monitro mewn modd llawn ac yn unigol.
- Roedd y staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn modd caredig, rhagweithiol a brwdfrydig drwy gydol yr arolygiad.
- Roedd systemau priodol ar waith i gael adborth gan gleifion, a oedd yn galluogi cleifion i leisio eu barn am amrywiaeth o bynciau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel yn seiliedig ar adolygiad o'u cofnodion gofal, trafodaethau â'r staff, ac adolygiad o'r systemau llywodraethu ansawdd a diogelwch. Nodwyd canfyddiadau arbennig o gadarnhaol ym meysydd atal a rheoli heintiau, rheoli meddyginiaethau, a chynllunio gofal.

Gwnaethom nodi nifer bach o feysydd i'w gwella er mwyn cryfhau agweddau ar reoli ymddygiad, cadw cofnodion a'r amgylchedd ffisegol yn llawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i agweddau ar y broses cadw cofnodion gael eu cryfhau mewn perthynas â chadw dogfennaeth ar wahân a gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

- Rhaid i allu'r staff y gael hyfforddiant i ategu'r model Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol gael ei adolygu.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau cynllunio gofal da ar waith, a oedd wedi'u hadolygu'n rheolaidd ac yn briodol i'r unigolyn.
- Roedd yr arferion atal a rheoli heintiau yn gadarn, ac roedd pob rhan o'r uned yn ymddangos yn lân.
- Roedd gwybodaeth dda am y trefniadau i ymdrin â materion diogelu, ac roeddent yn cael eu rhoi ar waith a'u goruchwylio'n dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwnaethom nodi nifer o bwyntiau cadarnhaol mewn perthynas â rheolaeth ac arweinyddiaeth y gwasanaeth. Roedd y rheolwyr yn weladwy a dywedodd pob aelod o'r staff wrthym y gallai ddibynnu ar ei reolwr llinell i helpu gyda thasg anodd. Cadarnhaodd pob aelod o'r staff ei fod wedi cael hyfforddiant a oedd yn briodol i'w rôl, a gwelsom ddefnydd da o gyfleoedd dysgu a datblygu allanol.

Fodd bynnag, nodwyd canfyddiadau llai ffafriol mewn perthynas â'r newid i'r gwasanaeth a oedd yn effeithio ar yr uned, a dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym fod y newid hwn wedi effeithio ar eu llesiant a'u tebygolrwydd o argymhell y gwasanaeth fel lle i weithio.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ymgysylltu â'r staff a sicrhau y caiff staff eu cefnogi os bydd unrhyw newidiadau i'w rolau o ganlyniad i'r newid o wasanaeth asesu a thrin i wasanaeth adsefydlu.
- Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar y materion hyn wrth ystyried anghenion hyfforddi'r staff ac i ba raddau y maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwyr yn weladwy ac y gallent ddibynnu ar eu rheolwr llinell i helpu gyda thasg anodd.
- Roedd y staff yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau, a gwnaethant ddangos gwybodaeth dda am y cleifion a'u hanghenion gofal.
- Roedd prosesau goruchwylio ansawdd a diogelwch priodol ar waith.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Gwnaethom siarad â'r cleifion ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion er mwyn llunio barn am ansawdd profiad y claf.

Cadw'n iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Roedd anghenion iechyd corfforol y cleifion yn cael eu hasesu a'u rheoli mewn modd amserol a phriodol. Er i ni nodi rhywfaint o oedi cyn cael gwasanaethau eraill, fel profion sgrinio cenedlaethol a gofal eilaidd, roedd y staff clinigol yn y gwasanaeth wedi gwneud ymdrechion i leihau'r oedi hyn cymaint â phosibl.

Roedd y gwiriadau iechyd blynyddol yn gyfredol ac roedd y staff yn canmol y cymorth a roddir gan y meddyg teulu i sicrhau bod y cleifion hyn yn cael y gwiriadau hyn ac unrhyw asesiadau dilynol mewn modd amserol.

Gwelwyd bod y pasbortau iechyd yn gynhwysfawr ac wedi'u teilwra at yr unigolyn Gwelsom fod y gwasanaeth yn ymgysylltu'n dda â gwasanaethau gofal eilaidd ar gyfer claf penodol yr oedd angen llawdriniaeth arno yn fuan. Roedd y gwasanaeth yn helpu i sicrhau ei fod yn cael gofal a thriniaeth mewn amgylchedd a modd sy'n ystyriol o'i anghenion.

Gofal ag urddas

Gofal ag urddas

Gwelsom aelodau o'r staff yn siarad â'r cleifion mewn ffordd garedig, rhagweithiol a brwdfrydig drwy gydol yr arolygiad.

Roedd gan bob un o'r cleifion eu hystafelloedd gwely eu hunain, gyda chyfleusterau en-suite. Rheolwyd mynediad drwy ffob allwedd unigol, a oedd ar gael i'r cleifion a'r staff at ddibenion diogelwch. Gwnaethom edrych ar un ystafell en-suite ac un ystafell sengl, ac roedd yn gadarnhaol gweld eu bod yn lân, yn daclus ac wedi'u personoli i greu ymdeimlad cartrefol.

Roedd croeso i ymwelwyr yn yr uned, ac roedd lle ar gael i gleifion gwrdd â pherthnasau ar wahân i'r staff a'r cleifion eraill os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Dywedodd un claf ei fod yn hoffi cael ymweliadau gan berthnasau, ac roedd hynny wedi'i nodi yn y ei gynllun gofal, a gwnaethom gadarnhau bod ymweliadau yn digwydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwelsom bob aelod o'r staff yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd frwdfrydig, yn unol â'u hanghenion a'u harddull gyfathrebu. Siaradodd y cleifion â'r tîm arolygu hefyd, a gwnaethant fynegi barn gadarnhaol am y gofal cefnogol a roddwyd gan y staff.

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn cael eu hannog i fynychu eu cyfarfodydd â'r tîm amlddisgyblaethol, a gwelsom y staff yn cynnwys cleifion yn y fforwm hwn mewn ffordd gadarnhaol a brwdfrydig.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd amrywiaeth o arddangosiadau a hysbysfyrddau i gleifion ym mhob rhan o'r uned. Roedd hyn yn cynnwys bwrdd Pwy yw Pwy a oedd yn cynnwys enw a llun pob aelod o'r staff, gwybodaeth am sut i fynegi unrhyw bryderon, a hysbysfyrddau â lluniau ar gyfer bwydlenni a gweithgareddau â lluniau. Roedd pob un o'r arddangosiadau yn ystyrlon, yn gyfredol ac yn hygyrch i'r grŵp cleifion.

Gofal amserol

Mynediad Amserol

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y cleifion yn cael gofal amserol yn unol â'u hanghenion clinigol. Roedd hyn yn cael ei ategu gan gyfleoedd priodol i adolygu anghenion y cleifion ac i gymryd camau lle y bo'n briodol, gan gynnwys wrth drosglwyddo, yn ystod cyfarfodydd staff a chleifion, ac yn ystod rowndiau ward (y tîm amlddisgyblaethol).

Gwnaethom nodi mai'r cyfnod hiraf yr oedd claf wedi ei dreulio yn yr uned oedd 30 diwrnod. Roedd dau glaf, gan gynnwys y claf hwn, yn wynebu oedi cyn cael ei drosglwyddo i leoliad newydd am ofal. Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol gweld bod lleoliadau newydd wedi'u nodi a bod trefniadau ar waith i gynllunio'r broses drosglwyddo.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau cynllunio gofal da ar waith i gefnogi a hyrwyddo annibyniaeth. Fodd bynnag, mae angen i'r bwrdd iechyd ystyried amgylchedd y cleifion ymhellach mewn ymateb i gyflwyno'r model gofal adsefydlu. Ymhlith yr enghreifftiau a roddwyd gan y staff a'r cleifion roedd cyfleusterau golchi dillad gwell â chyfleusterau storio, cegin cwbl weithredol i gleifion, a mynediad at ardd awyr agored weithredol y gellid ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau a therapi.

Dangosodd ymatebion gan y staff i holiadur AGIC thema gref yn y maes hwn, ac oedd rhai o'r sylwadau yn cynnwys:

“Mae'r newid i'r gwasanaeth yn golygu bod angen newid yr amgylchedd. Nid yw hyn wedi digwydd eto. Mae'n amhosibl rhoi'r gofal adsefydlu sydd ei angen ar ddefnyddwyr y gwasanaeth gan nad yw'r cyfleusterau angenrheidiol ar gael ...”

“... Nid yw <enw gwasanaeth> yn addas ar gyfer adsefydlu cleifion...”

“Newidiodd y gwasanaeth ei ddarpariaeth ym mis Gorffennaf 2021, ond ni roddwyd digon o ystyriaeth i'r newid pan dderbyniwyd cleifion cyn cyflogi aelodau o'r tîm ehangach a sicrhau bod cyfleusterau digonol ar gael i'r cleifion...”

Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar y canfyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn diwallu anghenion cleifion sy'n cael gofal adsefydlu.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff yr uned yn ceisio gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a oedd ar gael yn yr amgylchedd ffisegol. Nododd yr uwch-aelodau o'r staff hefyd fod cynigion am gyllid yn mynd rhagddynt i gefnogi'r uned.

Hawliau pobl

Cawsom sampl o gofnodion tri chlaf yn ymwneud yn benodol â gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Gwelsom fod pob un o'r cleifion yn cael eu cadw o dan y Ddeddf yn gyfreithlon. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y dylid cryfhau'r meysydd canlynol:

- Sicrhau y caiff Gwrandawiadau Rheolwyr yr Ysbyty eu cynnal mewn modd amserol. Gwelsom oedi o bum mis yn un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt.
- Sicrhau y caiff hen ffurflenni cydsynio eu cadw ar wahân i'r rhai cyfredol
- Sicrhau y defnyddir 'Nid yw'n ddilys mwyach' yn hytrach na 'Wedi'i ganslo' ar ffurflenni absenoldeb Adran 17 lle bu cyfnod o absenoldeb.

Cafodd rhai o'r materion uchod eu nodi yn adroddiadau 2015 a 2016. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwelliannau hyn eu gwneud a'u cynnal.

Gwelsom fod gwasanaethau cyfreithiol neu eirioli ar gael i'r cleifion a bod atgyfeiriadau at y gwasanaethau hyn yn cael eu gwneud yn awtomatig o fewn pedair wythnos ar ôl iddynt fodloni meini prawf y Ddeddf.

Gwnaethom gadarnhau bod y cleifion yn cael eu gwahodd i fod yn rhan o gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol i'w trafod bob yn ail wythnos. Gallai'r cleifion fynegi eu barn a'u dymuniadau, ac roedd trafodaethau'r tîm amlddisgyblaethol yn rhoi pwyslais cadarnhaol ar gynnal y rhain.

Gwranddo a dysgu o adborth

Gwelsom fod grŵp adborth cleifion ar waith a oedd yn galluogi'r cleifion i leisio eu barn am amrywiaeth o bynciau, gan gynnwys yr hyn yr hoffent ei weld yn cael ei wella a'u barn am y gweithgareddau a ddarparwyd. Roedd y cyfarfodydd wedi'u cynnal yn rheolaidd ac yn cynnwys camau gweithredu clir. Lluniwyd cofnodion ar ôl pob cyfarfod, mewn fformat priodol.

Roedd cyfleoedd ffurfiol i'r cleifion neu eu perthnasau/gofalwyr godi pryderon neu gwynion, ac roedd manylion am sut y gallent wneud hyn yn cael eu harddangos ym mhob rhan o'r Uned. Gwnaethom edrych ar un gwyn a gwelsom fod camau wedi'u cymryd i fynd i'r afael â hi gyda'r claf a'i bod wedi cael ei dogfennu mewn modd amserol.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr uned yn hygyrch o'r maes parcio i bob aelod o'r staff, ymwelydd a chlaf. Roedd yr uned yn cael ei chynnal a'i chadw'n dda yn ôl pob golwg, ac nid oes unrhyw ddifrod na diffygion sylweddol.

Roedd arian wedi'i fuddsoddi yn ddiweddar yn system fynediad ystafelloedd gwely'r cleifion ac amgylchedd yr ystafell arwahanu. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn hyderus i ddefnyddio'r systemau hyn mewn sefyllfaoedd heriol. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff eu bod yn teimlo'n fwy diogel wrth ddefnyddio'r hen system allweddi. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried y sylw hwn ar y cyd â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn well.**

Nododd staff, cleifion a'r tîm arolygu fod tymheredd eithafol yr uned yn broblem. Er y dywedwyd wrthym y byddai'r system wresogi yn cael ei diffodd bythefnos ar ôl yr arolygiad, roedd risg y bydd y broblem hon yn ailgodi ar ôl yr haf. Dywedodd y staff hefyd fod oedi cyn i faterion cynnal a chadw ac ystadau cyffredinol gael eu datrys. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried y mater hwn ar y cyd â'r adran ystadau er mwyn dod o hyd i ateb cynaliadwy.**

Roedd asesiadau risg pwyntiau clymu ac asesiadau risg amgylcheddol wedi'u hadolygu'n ddiweddar. Cadarnhaodd y staff y byddai cleifion yn cael eu cefnogi drwy asesiadau risg unigol, ac y byddai lefel briodol o arsylwi manylach yn cael ei chymhwyso lle bo angen.

Roedd pecyn brys ar gael yn yr uned. Roedd hwn yn cael ei gadw mewn man hygyrch ac roedd y staff yn gwybod sut i gael gfael arno mewn argyfwng. Roedd cynnwys y pecyn yn gyfredol / yn cynnwys batri gweithredol.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Pan gyrhaeddom yr uned, roedd pob ardal yn ymddangos yn lân ac yn daclus, a gwnaethant barhau felly drwy gydol yr arolygiad. Roedd hylif diheintio dwylo a gorchuddion wyneb ar gael wrth y fynedfa, er nad oedd unrhyw gyfyngiadau atal a rheoli heintiau ar waith ar adeg yr arolygiad.

Gwelsom staff glanhau a chadw tŷ yn cwblhau tasgau i safon uchel a bod rhestrau gwirio glanhau yn cael eu cwblhau a'u monitro gan staff goruchwylio. Roedd

archwiliadau atal a rheoli heintiau yn cael eu cwblhau'n gyson a'u sgorio'n gadarnhaol.

Gallai'r uned ddarparu nyrsio ar wahân neu ataliol yn ôl yr angen. Dywedodd y staff y byddai prosesau priodol yn cael eu dilyn a gwnaethant gadarnhau bod y cyfarpar diogelu personol angenrheidiol ar gael iddynt.

Roedd gwastraff offer miniog yn cael ei storio'n briodol ac yn ddiogel yn yr ystafell meddyginiaethau. Roedd protocol ar waith i'r staff ei ddilyn pe baent yn cael anaf nodwydd.

Gallai'r cleifion ddefnyddio ystafell golchi dillad, gyda chymorth staff. Gwelsom fod storio yn broblem benodol a bod rhai deunyddiau, fel olew modur a chyfarpar sbâr, yn cael eu storio mewn modd amhriodol. **Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu hyn fel rhan o'i ystyriaeth ehangach o amgylchedd y cleifion a sicrhau bod y deunyddiau uchod yn cael eu storio'n ddiogel.**

Maeth a hydradu

Gallai'r cleifion ddewis yr hyn yr hoffent ei fwyta o fwydlen a oedd yn cael ei harddangos yn y lolfa yn ystod amseroedd bwyd penodol bob dydd. Roedd opsiynau'r fwydlen wedi'u hategu gan luniau er mwyn helpu'r cleifion i ddewis, a gwnaethom gadarnhau bod dewisiadau ac anghenion deietegol unigol yn cael eu hystyried. Roedd opsiynau iach ar gael yn yr uned.

Roedd y bwyd a welsom yn edrych yn flasus a chafwyd sylwadau cadarnhaol gan y cleifion am y bwyd. Roedd byrbrydau personol hefyd ar gael i'r cleifion ac roeddent yn cael eu cefnogi i baratoi diodydd mewn cegin benodol i gleifion yn yr uned. Dywedodd un claf wrthym fod prydau tecawê ar gael ar y penwythnos hefyd, a'i fod yn mwynhau'r profiad hwn.

Gwnaethom gadarnhau bod gwasanaeth therapi lleferydd ac iaith ar gael, a gwelsom dystiolaeth bod asesiadau perthnasol wedi'u cwblhau ar gyfer cleifion. Nid oedd unrhyw gamau gweithredu pellach wedi'u nodi drwy'r asesiadau hyn. Roedd gwasanaethau dietetig ar gael pe bai angen.

Roedd y brif cegin yn yr uned yn cynnwys stociau da o fwyd a chynhwysion, ac roedd yn ymddangos yn lân ac yn drefnus. Roedd hyn wedi'i ategu gan sgôr hylendid bwyd o bum seren. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r staff a'r cleifion y byddent yn hoffi cael cegin cwbl weithredol i'r cleifion. Roedd ymdrechion wedi'u gwneud i ddarparu man addas, ond roedd hyn wedi'i gyfyngu gan faint a chyfarpar. Credwn y byddai hyn yn ddatblygiad defnyddiol i feithrin sgiliau'r cleifion, yn enwedig yn sgil y model gofal adsefydlu newydd yn yr uned. **Rydym yn argymhell y**

dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu'r gegin i gleifion fel rhan o'r broses ehangach o ystyried amgylchedd y cleifion a'r potensial i feithrin sgiliau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y systemau rheoli meddyginiaeth yn effeithiol ar y cyfan, gyda thasgau'n cael eu dirprwyo'n glir a siartiau meddyginiaeth yn cael eu cwblhau'n gyson i safon dda. Ategwyd hyn gan dystiolaeth o archwiliadau stoc bob pythefnos.

Nid oedd unrhyw gyffuriau a reolir yn cael eu defnyddio ar adeg yr arolygiad. Fodd bynnag, gwelsom gabinetau wedi'u cloi'n briodol a thystiolaeth o wiriadau dyddiol ar gyfer meddyginiaethau eraill a allai gael eu camdefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod gan y cleifion gynlluniau meddyginiaeth unigol a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n wythnosol yn ystod rowndiau ward. Gallai'r cleifion fod yn rhan o'u rownd ward bob yn ail wythnos.

Roedd cleifion a oedd yn cael meddyginiaeth yn ôl y gofyn (PRN) yn cael y feddyginiaeth hon ar bresgripsiwn drwy'r geg, a gwelsom dystiolaeth bod cleifion yn cael cymorth priodol, gan ddefnyddio cymhorthion priodol, i esbonio natur y feddyginiaeth a roddwyd iddynt ar bresgripsiwn, a'r rhesymau dros hynny. Roedd yn gadarnhaol gweld bod cardiau fflach a siartiau mynegiant wyneb yn cael eu defnyddio i sgorio unrhyw boen yr oedd cleifion yn ei deimlo.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gweithdrefnau clir ar waith yn y bwrdd iechyd i'r staff eu dilyn pe bai ganddynt bryder diogelu. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff wrthym eu bod yn wynebu anawsterau weithiau yn ymwneud â pharodrwydd yr awdurdod lleol i dderbyn atgyfeiriadau am fod y gwasanaeth yn agos i ffiniau mwy nag un awdurdod lleol. Rhoddodd rheolwyr y ward sicrwydd i ni fod y materion hyn yn cael eu datrys ac nad oeddent yn achosi unrhyw oedi wrth adolygu'r atgyfeiriad. Cynghorir y bwrdd iechyd y dylai fonitro hyn am unrhyw faterion mynych.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i roi'r gweithdrefnau hyn ar waith yng nghyd-destun eu dyletswyddau. Roedd hyn yn cynnwys nodi materion diogelu a gweithredu arnynt. Gwnaethom edrych ar ddata hyfforddiant a gwelsom fod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Roedd trefniadau da ar waith i oruchwylio materion diogelu ar lefel reoli gan uwch-aelodau o'r staff nyrsio a thimau diogelu'r bwrdd iechyd. Roedd y materion hyn yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd llywodraethu perthnasol at ddibenion adolygu a monitro.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod gan bob claf gynlluniau gofal a thriniaeth perthnasol ar waith, a oedd yn cynnwys yr agweddau cadarnhaol canlynol:

- Roedd y cynlluniau gofal yn cynnwys pwyslais priodol ar anghenion, cryfderau, galluoedd a bwriadau posibl ar gyfer y dyfodol / annibyniaeth
- Roedd asesiadau risg wedi'u cwblhau ac yn gyfredol
- Roedd y cynlluniau gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd drwy gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol â phresenoldeb da ynddo, gan ystyried mewnbyn rheolaidd gan y cleifion a gan ddefnyddio eiriolwr lle bo angen.
- Roedd Cynlluniau Gofal a Thriniaeth ar waith ar gyfer y cleifion hynny a oedd yn ddarostyngedig i Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010

Gofal diogel a chlinigol effeithiol - Ymddygiadau sy'n herio

Dangosodd y staff wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r cleifion, a oedd yn helpu i feithrin amgylchedd cadarnhaol ar gyfer sicrwydd therapiwtig a pherthynol.

Roedd yn gadarnhaol gweld bod nifer o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol wedi'u cyd-leoli yn yr uned. Roedd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau arbenigol mewn modd amserol. Fodd bynnag, rydym eisoes wedi nodi'r cyfyngiadau posibl y gall yr amgylchedd eu hachosi rhag sicrhau budd therapiwtig llawn.

Gwelsom fod y cynlluniau cymorth ymddygiad cadarnhaol yn cynnwys strategaethau priodol a'u bod wedi'u teilwra'n briodol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn. Fodd bynnag, gwelsom fod dwy system ar waith, a oedd yn golygu nad oedd y cynllun diweddaraf ar gael yn ffeil weithredol y claf. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y system yn gadarn er mwyn sicrhau bod y cynllun diweddaraf ar gael i'r staff.**

Roedd tystiolaeth o fewnbwn gan y cleifion ac adolygiad rheolaidd gan staff a oedd yn adnabod y claf yn dda. Roedd y staff yn cael eu cefnogi i gwblhau hyfforddiant ar Gefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol ar lefel a oedd yn berthnasol i'w rôl, ac roedd yn gadarnhaol nodi bod rhai o'r staff wrthi'n cwblhau diploma mewn Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol. Fodd bynnag, nododd rhai o'r staff eu bod yn ei chael hi'n anodd cael eu rhyddhau i fynychu cyrsiau hyfforddi. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i fanteisio ar arbenigedd y tîm amlddisgyblaethol i ddarparu hyfforddiant ar gynnal ymddygiad yn gadarnhaol sy'n benodol i'r unigolyn a chefnogi staff i fynychu cyrsiau hyfforddi yn ôl yr angen.**

Roedd amrywiaeth o fesurau therapiwtig ar gael i leihau'r angen am arferion cyfyngol. Roedd hyn yn cynnwys mewnbwn da gan gydgysylltydd gweithgareddau'r uned a mewnbwn gan staff i ddatblygu amserlenni wythnosol ar y cyd â'r cleifion. Roedd enghreifftiau'n cynnwys gweithgareddau celf a chreffft, therapi anifeiliaid anwes a theithiau pêl-droed.

Lle roedd angen ymyriadau cyfyngol, gwnaethom gadarnhau bod yr ymyriadau lleiaf cyfyngol yn cael eu dilyn yn yr achos cyntaf, a oedd yn cynnwys defnyddio ystafell syml, dawel.

Gwnaethom gadarnhau bod systemau priodol ar waith ar gyfer cofnodi, monitro a goruchwylio'r defnydd o unrhyw ymyriadau. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau dadfrifio ar ôl digwyddiadau, adolygiadau ac ymarfer myfyriol. Fodd bynnag, rydym yn argymhell y byddai gwybodaeth ychwanegol am y rhesymau dros ddefnyddio ymyrraeth benodol a'r hyn a wnaed i gyfiawnhau'r ymyrraeth honno fel y dewis olaf. **Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd archwilio hyn gyda thimau perthnasol yn yr uned.**

Roedd ystafell arwahanu wedi'i dylunio'n briodol wedi cael ei chreu yn yr uned yn ddiweddar. Fodd bynnag, prin iawn roedd dulliau arwahanu'n cael eu defnyddio yn yr uned. Pan fyddai'r ystafell arwahanu'n cael ei defnyddio, gwnaed hynny yn unol â chynllun gofal y claf unigol.

Gwnaethom nodi dau anghysondeb yn y gwaith papur meddygol a oedd yn gysylltiedig â defnyddio'r ystafell arwahanu yn un o'r cofnodion y gwnaethom edrych arnynt. Roedd hyn yn cynnwys nad oedd angen cynnal adolygiad nyrsio pan oedd y cyfnod arwahanu yn golygu bod angen cynnal yr adolygiad hwn. Hefyd, roedd cyfnod arwahanu anghywir wedi'i nodi. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dogfennaeth sy'n gysylltiedig ag arwahanu ei chwblhau'n gywir.**

Cadw cofnodion

Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda ar y cyfan yn y sampl o bum cofnod y gwnaethom edrych arnynt. Roedd yr holl gofnodion cleifion a dogfennau cynllunio gofal wedi'u cwblhau yn ôl yr angen ac mewn modd cynhwysfawr. At ei gilydd, roedd y dogfennau cynllunio gofal wedi'u teilwra'n briodol ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwnaethom nodi bod y gwasanaeth wedi newid yn 2021 i ddechrau darparu model gofal adsefydlu, yn ogystal â'i lwybr asesu. Fodd bynnag, dywedodd nifer o'r staff wrthym eu bod yn teimlo y gallai'r newid hwn fod wedi cael ei reoli'n fwy effeithiol.

Nodwyd thema gyffredin ymhlith sylwadau'r staff yn ymwneud â chydberthnasau proffesiynol dan straen rhwng y staff nyrsio a'r staff therapi, diffyg gweithio integredig, a diffyg amgylchedd a chyfleusterau addas i ddarparu gofal adsefydlu.

Cafodd hyn ei atgyfnerthu gan ymatebion nifer o'r staff i holiadur AGIC; nododd mwy na hanner yr ymatebwyr eu bod yn teimlo bod eu swydd yn cael effaith andwyol ar eu hiechyd a nododd mwy na hanner na fyddent yn argymhell y gwasanaeth fel lle i weithio.

Ar adeg yr arolygiad, roedd agweddau ar y newid hwn i'r gwasanaeth yn mynd rhagddynt ac roeddent wedi'u hailystyried yn seiliedig ar adborth gan y staff. Gwnaethom nodi bod yr uwch-reolwyr wedi cyfarfod â'r staff yn ddiweddar a bod polisi gweithredol diwygiedig ar fin cael ei gymeradwyo. **Rhaid i'r bwrdd iechyd roi pwyslais ar sicrhau bod y materion hyn yn parhau i gael eu hystyried a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw mewn modd amserol a chadarn.**

Gwelsom fod y rheolwyr yn weladwy ar yr uned a rhoddodd y staff sylwadau cadarnhaol am eu rheolwr llinell. Roedd pob aelod o'r staff yn cytuno y gallent ddibynnu ar eu rheolwr i'w helpu gyda thasg anodd a'i fod yn gofyn iddynt am eu barn cyn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu gwaith.

Wrth gyrraedd yr uned ar noson gyntaf yr arolygiad, gwelsom fod yr uned yn cael eu rheoli'n dda a bod y staff yn agored, yn ymatebol ac yn gefnogol i'r broses arolygu. Roedd rheolwyr yr uned a phob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr arolygiad yn glir ynghylch eu cyfrifoldebau, a gwnaethant ddangos gwybodaeth dda am y cleifion a'u hanghenion gofal.

Wrth drafod yr uwch-reolwyr, dywedodd y rhan fwyaf o'r staff wrthym y gellid gwella'r cyfathrebu rhwng yr uwch-reolwyr a'r staff, ond roedd y rhan fwyaf yn cytuno bod yr uwch-reolwyr yn gwbl ymrwymedig i ofal cleifion. Wrth drafod â'r uwch-reolwyr, gwelsom eu bod yn ymwybodol o'r materion allweddol a oedd yn effeithio ar y gwasanaeth a gwnaethant amlinellu mentrau parhaus i gefnogi hyn.

Roedd prosesau llywodraethu ansawdd a diogelwch priodol ar waith i gofnodi, nodi, uwchgyfeirio a monitro digwyddiadau, canlyniadau archwiliadau a materion eraill. Gwelsom hyn yn ystod y rownd ward, drwy drafodaethau â rheolwyr yr uned a'r uwch-reolwyr, ac mewn cofnodion cyfarfodydd llywodraethu.

Y Gweithlu

Yn gyffredinol, roedd gweithlu sefydlog a chyson yn yr uned, a oedd yn helpu i gynnal cydberthnasau cyfarwydd ac effeithiol â'r cleifion. Roedd nifer cyffredinol isel o swyddi gwag a lle roedd staff banc yn cael eu defnyddio, roeddent yn adnabyddus i'r gwasanaeth. Roedd pob ymatebydd ond un yn cytuno bod digon o staff i'w alluogi i wneud ei waith yn iawn.

Roedd nifer o weithwyr proffesiynol amlddisgyblaethol wedi'u cyd-leoli yn yr uned. Roedd hyn yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o wasanaethau arbenigol mewn modd amserol. Rhoddodd staff sylwadau cadarnhaol am yr effaith y mae hyn yn ei chael ar sicrhau canlyniadau cleifion mewn modd amserol.

Cadarnhaodd pob aelod o'r staff ei fod wedi cael hyfforddiant priodol i ymgymryd â'i rôl a gwnaethom gadarnhau bod cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol da. Dywedodd rhai o'r staff eu bod yn teimlo y gellid gwella hyfforddiant mewn ymateb i ddarpariaeth newydd y gwasanaeth er mwyn helpu i ddarparu gofal priodol i gleifion, a bod diffyg amser gwarchoddedig i ymgymryd â hyfforddiant. **Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff eu cefnogi os bydd unrhyw newidiadau i'w rolau o ganlyniad i'r newid o wasanaeth asesu a thrin i wasanaeth adsefydlu.**

Fodd bynnag, roedd yn gadarnhaol nodi bod rheolwr yr uned yn rhoi pwyslais ar rymuso'r staff i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu ychwanegol yn unol â nodau datblygu personol. Roedd hyn yn cynnwys diploma lefel 3, llwybrau hyblyg i nyrsio a modiwlau lefel meistr.

Gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael sesiynau arfarnu a goruchwylio yn ddiweddar.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad:

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth:

Dyddiad yr arolygiad: 17-19 Ebrill 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1. Rhaid i'r bwrdd iechyd fyfyrion ar y canfyddiadau hyn er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn diwallu anghenion cleifion sy'n cael gofal adsefydlu.	1.1 / 3.1 / 6.1	Ailgyflwyno cynnig i'r cronfeydd elusennol ar gyfer ystafell yr ardd er mwyn darparu gardd y gellid ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau a therapi.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth	Gorffennaf 2023
		Y tîm amlddisgyblaethol i asesu'r gofynion o ran therapi/adsefydlu er mwyn cyflwyno achos dros newidiadau amgylcheddol.	Rheolwr y Ward a'r Tîm Clinigol Rheolwyr y Gyfarwyddiaeth Nyrs Arwain	Awst 2023
		Capital Planning i gadarnhau'r sefyllfa o ran cyllid cyfalaf yn ymwneud â'r gofyniad i greu cegin i gleifion.	Cyfarwyddwr Cyswllt y Grŵp Gwasanaeth	Awst 2023
2. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y gwelliannau hyn mewn perthynas â'r Ddeddf Iechyd Meddwl eu gwneud a'u cynnal.	Cod Ymarfer y Ddeddf Iechyd Meddwl / 6.2	Atgoffa pob aelod o'r staff o'r angen i gynnal cofnodion da gan gyfeirio at y Ddeddf Iechyd Meddwl ac arwahanu/y defnydd o arferion cyfyngol.	Rheolwr y Ward	Awst 2023

		<p>Storio hen ffurflenni cydsynio mewn ffeil archif.</p> <p>Bydd stamp newydd yn cael ei brynu er mwyn stampio ffurflenni Adran 17 i ddangos pan fydd ffurflenni wedi dyddio, wedi'u canslo neu'n annilys a phan fydd ffurflen newydd ar waith.</p> <p>Sefydlu adolygiad gyda'r tîm amlddisgyblaethol er mwyn gwella cydymffurfiaeth/y broses archwilio. Trafod gwrandawiadau Rheolwyr yr Ysbyty fel rhan o'r adolygiad hwn.</p>	<p>Rheolwr y Ward/ Cymorth gweinyddol</p> <p>Rheolwr y Ward/ Cymorth gweinyddol</p> <p>Rheolwr y Ward/Tîm y Ddeddf Iechyd Meddwl.</p>	<p>Gorffennaf 2023</p> <p>Gorffennaf 2023</p> <p>Medi 2023</p>
<p>3. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau yn ymwneud â drysau ystafelloedd gwely'r cleifion â'r staff er mwyn deall eu pryderon yn well.</p>	1.1 / 2.1 / 3.1	<p>Adolygu'r sylwadau yn ystod cyfarfod staff er mwyn nodi'r heriau presennol a'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd ar gyfer y dyfodol.</p>	<p>Rheolwr y Ward Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	Gorffennaf 2023
<p>4. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried y broblem o ran gwresogi gyda'r adran</p>	2.1	<p>Tîm y ward i barhau i gofnodi galwadau â'r adran Ystadau yn ymwneud â'r problemau gwresogi</p>	Rheolwr y Ward	Awst 2023

<p>ystadau er mwyn nodi ateb cynaliadwy.</p>		<p>yn unol â'r broses bresennol. Uwchgyfeirio at Reolwr y Gyfarwyddiaeth fel y bo'n briodol.</p> <p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth i gydgylltu â'r adran Ystadau i ystyried cyfleoedd i wella amseroedd ymateb a pharhau i uwchgyfeirio problemau yn ôl yr angen.</p>	<p>Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Adran Ystadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</p>	<p>Awst 2023</p>
<p>5. Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu canfyddiadau yn ymwneud â'r ystafell golchi dillad fel rhan o'i ystyriaeth ehangach o amgylchedd y cleifion, gan sicrhau y caiff deunyddiau eu storio'n ddiogel lle bo angen.</p>	<p>1.1 / 3.1 / 6.1</p>	<p>Sicrhau y caiff materion eu hystyried fel rhan o asesiad risg amgylcheddol diwygiedig a sicrhau y caiff eitemau eu storio'n briodol (h.y. olew modur a chyfarpar sbâr). Gofyn i'r adran Ystadau am gymorth pan fo angen.</p>	<p>Rheolwr y Ward Rheolwr y Gyfarwyddiaeth</p>	<p>Gorffennaf 2023</p>
<p>6. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd ystyried datblygu'r gegin i gleifion fel rhan o'r broses ehangach o ystyried amgylchedd y cleifion a'r potensial i feithrin sgiliau.</p>	<p>1.1 / 3.1 / 6.1 2.5</p>	<p>Gweler pwynt 1 uchod.</p>		
<p>7. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y cynllun cymorth ymddygiad diweddaraf ar gael yn y ffeil</p>	<p>3.1 / 6.1</p>	<p>Holl aelodau'r tîm amlddisgyblaethol i sicrhau y caiff y ddogfennaeth fwyaf gyfredol ei storio yn y ffeil</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Gorffennaf 2023</p>

weithredol a ddefnyddir gan y staff.		glinigol weithredol a'i monitro gan y tîm nyrsio sylfaenol. Archwiliad drwy'r Fframwaith Sicrhau Ansawdd	Rheolwr y Ward/Nyrs Arwain	Gorffennaf 2023
8. Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd barhau i fanteisio ar arbenigedd y tîm amlddisgyblaethol i ddarparu hyfforddiant ar gynnal ymddygiad yn gadarnhaol sy'n benodol i'r unigolyn a chefnogi staff i fynychu cyrsiau hyfforddi yn ôl yr angen.	7.1 / 3.1	Cynnal adolygiad staffio er mwyn sicrhau y caiff pob aelod o'r staff ei gefnogi i gael hyfforddiant. Adolygu gofynion hyfforddiant a chytuno ar gynllun i'w bodloni.	Nyrs Arwain ar gyfer Cyllid Rheolwr y Ward a'r Tîm Clinigol.	Gorffennaf 2023 Awst 2023
9. Rydym yn argymhell y dylid dogfennu gwybodaeth am y rheswm/rhesymau dros ddefnyddio ymyrraeth benodol a'r hyn a wnaed i gyfiawnhau'r ymyrraeth honno fel y dewis olaf.	3.5	Ar y cyd â'r tîm amlddisgyblaethol, adolygu'r cynlluniau Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol a'r rhesymau dros ddefnyddio ymyriadau er mwyn sicrhau y cânt eu nodi'n glir. Adolygu'r ffordd y mae'r tîm yn cofnodi ymyriadau a all fod y tu hwnt i'r cynllun gofal a thriniaeth a'r broses gynllunio ar gyfer cefnogi ymddygiad yn gadarnhaol, a chreu cynllun gweithredu ar gyfer hyn. Ystyried y defnydd a wneir o becyn cymorth Lleihau Arferion Cyfyngol i gefnogi'r dull gweithredu hwn.	Rheolwr y Ward a'r Tîm Clinigol. Rheolwr y Ward a'r Tîm Clinigol.	Awst 2023 Awst 2023

<p>10. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff dogfennaeth sy'n gysylltiedig ag arwahanu ei chwblhau'n gywir.</p>	<p>3.5</p>	<p>Adolygu'r ddogfennaeth arwahanu gyfredol a sicrhau y caiff adolygiadau cleifion eu cofnodi'n gywir yn unol â'r polisi. Ystyried y defnydd a wneir o'r pecyn cymorth Lleihau Arferion Cyfyngol i gefnogi'r dull gweithredu hwn.</p>	<p>Rheolwr y Ward a'r Tîm Clinigol.</p>	<p>Awst 2023</p>
<p>11. Rhaid i'r bwrdd iechyd roi pwyslais ar sicrhau bod y materion yn ymwneud â'r newid i'r gwasanaeth yn parhau i gael eu hystyried a bod camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â nhw mewn modd amserol a chadarn.</p>	<p>7.1</p>	<p>Cymeradwyo cynllun gweithredu ar gyfer y tîm a'i roi ar waith, a sicrhau y caiff cyfarfodydd dal i fyny eu sefydlu i gefnogi'r staff.</p>	<p>Nyrs Arwain Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Y Tîm Arwain Proffesiynol.</p>	<p>Awst 2023</p>
<p>12. Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff y staff eu cefnogi os bydd unrhyw newidiadau i'w rolau o ganlyniad i'r newid o wasanaeth asesu a thrin i wasanaeth adsefydlu.</p>	<p>7.1</p>	<p>Cymeradwyo cynllun gweithredu ar gyfer y tîm a'i roi ar waith, a sicrhau y caiff cyfarfodydd dal i fyny eu sefydlu i gefnogi'r staff.</p>	<p>Nyrs Arwain Rheolwr y Gyfarwyddiaeth Y Tîm Arwain Proffesiynol.</p>	<p>Awst 2023</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Janet Williams

Teitl swydd: Cyfarwyddwr y Grŵp Gwasanaeth (Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu)

Dyddiad: 09/06/2023